CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 22, 2020

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar Zoom
Nos Fawrth, Medi 22, 2020 am 7:30yh o'r gloch

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Huw A. Evans, Gerallt Griffith, Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol, ac i Llion Rh. Williams pwy oedd yn cyfarfod cyntaf Zoom.

2. Ymddiheuriadau:

Nid oedd ymddiheuriadau.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 21, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 21, 2020

Eitem 6.e. Llythyr ateb (23/7/2020) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod bydd cynllun yn cael ei baratoi i geisio adeiladu'r wal yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r safle yn anodd iawn o ran mynediad ac mae cyflwr gweddill y wal yn fregus.

Eitem 11.a. Llythyr ateb (29/7/2020) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

i. Bydd yr Arolygwr Priffyrdd yn rhoi gwaith i mewn i agor y ddwy gwter ar ochr y ffordd rhwng Capel Ffrwd a Tyddyn Llywarch.

ii. Mae'r gwaith o ailbeintio y marciau ARAF / SLOW ar ffordd B4416 yn Brithdir wedi ei gynnwys ar eu rhaglen i'r contractwyr gwblhau. Mae ein cais am ychwanegu marciau newydd wedi ei anfon i Adran Trafnidiaeth yng Nghaernarfon er mwyn iddynt wneud arolwg o'r safle.

iii. Bydd yr Arolygwr Priffyrdd yn gwneud archwiliad o docio coed ar ochr ffordd rhwng Tan y Foel a Penesgynfa, Llanfachreth. Bydd llythyrau yn cael eu hanfon i'r tirfeddianwyr sy'n berchen ar y coed yn gofyn iddynt eu torri.

Eitem 11.b. Mae'r gangen wedi achosi ychydig o ddifrod ar y to loches fysus Bontnewydd. Mae Barry Jones wedi symud y gangen ac mae angen trwsio'r to gydag un 'ridge tile' a thri lechan.

Penderfynwyd cael prisiau i drwsio'r to oddi wrth G.W. Jones a Gwynfor Jones.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (6/8/2020) oddi wrth Arweinydd Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd gyda 6ed Bwletin 'Gyda'n GIlydd'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw i'r mater.

b. Llythyr (12/8/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ynglŷn â dileu rhai Blychau Ffôn Talu Cyhoeddus oherwydd nid ydynt yn cael digon o ddefnydd. O'r rhestr blychau ffôn, Llanfachreth (rhif ffôn 01341 450 246) sydd dan sylw. Mae'r blwch wrth Ty Cerrig. Mae arwydd wedi ei roi yn y blwch yn rhoi gwybod am y bwriad a beth mae un i'w wneud. Mae BT yn rhoi cyfle i gymunedau lleol, cynghorau ac elusennau i fabwysiadu'r blychau ffôn coch fel ased. Y gost yw £1. Maent angen gwybod ein barn cyn 5/9/2020

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw ar y mater, a hefyd i Bethan Gwanas oherwydd roedd ganddi hi ac Eluned Morgan diddordeb i gynnal a chadw'r blwch ffôn.

Cyn rhoi penderfyniad i fabwysiadu'r blwch ffôn, cytunwyd (yn cyfarfod 27/8/2020 ar Zoom) gwneud ymoliadau â Cyngor Gwynedd i gael gwybod beth yw'r telerau bydd rhaid i'r cyngor ei gyflawni. Fel enghraifft, os bydd dim defnydd yn cael ei wneud o'r blwch ffôn oes gan y cyngor yr hawl ei werthu ar y farchnad agored. Nid oedd gan Bethan Gwanas ac Eluned Morgan diddordeb yn y blwch ffôn.

Wrth fynd trwy ddogfennau contract derbyniwyd yn 2016 pryd roedd cynnig gwreiddiol i fabwysiadu ciosg ffôn, mae rhan y telerau yn cynnwys: Covenant not to sell, lease or license the Goods to a competitor to the Seller nor to permit a competitor to install electronic communications apparatus. (Goods: telephone kiosk. Seller: BT). Yn fy marn i does dim hawl gan y Cyngor i werthu'r ciosg ar ôl ei fabwysiadu.

Penderfynwyd ddim derbyn y cynnig.

c. Llythyr (20/8/2020) oddi wrth Meirionnydd Running Club. Maent yn gwneud trefniadau i gynnal Ras Rhobell Fawr yn wythnos gyntaf Tachwedd. Bydd y ras yn cychwyn o Neuadd Bentref Llanfachreth a defnyddio'r toiledau, a chodi gazebo ym muarth yr ysgol neu mewn cae. Maent angen gwybod os bydd croeso iddynt i gynnal y ras gydag effaith Covid-19.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw ar y mater.

Yn ein cyfarfod (27/8/2020) penderfynwyd rhoi gwybod i'r Clwb: ni allith y Cyngor rhoi barn trigolion ar y digwyddiad, bydd angen caniatad Pwyllgor Neuadd Lanfachreth ar ddefnyddio'r Neuadd, bydd angen caniatad Cyngor Gwynedd ac Eglwys yng Nghymru i ddefnyddio iard chwarae yr ysgol, a chaniatad tirfeddianwyr i ddefnyddio tir.

Llythyr ateb (28/8/2020) oddi wrth Dr Bradley yn rhoi yr argraff bydd y digwyddiad yn cymryd lle.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw ar y mater.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Dr Bradley i gael gwybod beth yw'r diweddaraf ynglŷn â'r digwyddiad.

ch. Llythyr (20/8/2020) oddi wrth Cyngor Cymuned Llanllyfni yn amgau cynnig am gefnogaeth gan gynghorau cymuned / tref i godi tal am fynediad i'r Wyddfa. Mae angen gefnogaeth hefyd i gael cyfarfod ar y mater yn Siambr Gyngor Gwynedd a rhoi gwybod i Arweinydd Cyngor Gwynedd.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Cyngor ein bod yn cytuno gyda'r cynnig i gynnal cyfarfod ynglŷn â chodi tal am fynediad i'r Wyddfa. Bydd Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn cael gwybod o'n penderfyniad.

d. Llythyr (27/8/2020) oddi wrth Heddlu Dyfed Powys trwy Un Llais Cymru. Maent yn rhybuddio cynghorwyr o scam sy'n cael ei wneud i brynu cardiau oddi wrth Amazon.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyrau (6/9/2020 a 9/9/2020) oddi wrth Cadeirydd a Swyddog Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru. Mae'n rhoi gwybod bod rhwystradau ar ffyrdd yn ardal Rhydymain yn gwneud hi'n amhosib eu defnyddio:

ffordd Castell y Graig i Penardd Wnion-Fach: dwy ffens a gordyfiant.

ffordd Pont ar Felau i Penardd Wnion-Fawr: gat / ffens

Anfonwyd y manylion ymlaen i'r aelodau ac i Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd.

Llythyr (7/9/2020) oddi wrth Swyddog Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru yn rhoi gwybod mater i'r Cyngor Cymuned yw hwn.

Penderfynwyd disgwyl ymateb Cyngor Gwynedd i'r mater cyn cysylltu â Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru.

e. Llythyr (15/9/2020) oddi wrth Glerc Cyngor Tref Nefyn yn rhoi gwybod bod y Cyngor yn cefnogi mesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol. Mae hyn oherwydd bod tai yn mynd ar y farchnad am grocbris a'u prynu fel ail gartrefi yn Gwynedd. Mae'r Cyngor angen cefnogaeth cynghorau tref a phlwy i'r cynnig a gyda hyn i ni roi gwybod i Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd. Derbyniwyd llythyr arall gyda Datganiad Safbwynt.

Anfonwyd copi o'r llythyrau i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r mesurau. Gyda'r mater yn effeithio ar ran fwyaf o Gymru mi ddylai Llywodraeth Cymru cael gwybod o'r mater. Adroddodd Peredur Jenkins lythyr anfonodd Cyngor Gwynedd i Lywodraeth Cymru yn rhoi sylw i'r mater.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio

i. NP5/54/LB210B. Caniatâd Adeilad Rhestredig i gywiro a newid i'r 'ymyrraeth amhriodol y 1960au' yn y cefn a'r Drychiad Gogleddol. Adfer rhan o'r to, 5 ffenestr to, ffenestr golau, adfer 2 gorn simnae, tynny gwaith plastar carreg bras, 4 ffenestr 'Clorestor', dymchwel estyniad to gwastad y fynedfa cefn a strwythur pontio a cysylltiad a'r byngalow. Adfer agoriadau ffenesri gwreiddiol y gegin a'r selar is-lawr a ffenestri codi traddodiadol 'Sioraidd' newydd, drysau traddodiadol, ail bwyntio ac ail blastro render llyfn gorffeniad paent i rhan or drychiad cefn. Creu agoriad newydd yn wal allanol yr hen ystafell 'filiards'. Codi tri estyniad gwydr 'ciwb' ei ffurf trost 1 fynedfa cefn yn arwian ir selar, 2 tros y grisiau sy'n troelli o'r llyfrgell deulawr newydd ar ystafell clogia, 3 yng nghlwm a trost yr agoriad wall cefn yr hen ystafell filiards gyda mynediad allanol i'r ardd. Dymchwel y 'byngalow' 60'au a chreu gardd wedi ei dylunio gan adfer ôl-troed sylfaen yr adain gefn wreiddiol a ddymchwelwyd yn y 60au. Caerynwch, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (21/8/2020).

ii. NP5/54/LB76D. Caniatâd Adeildad Rhestredig i ychwanegu ystafell ymolchi i gynllun llawr daear, wrth gefn pared pyst a panel wedi godi ar lwyfan i gynnwys gwasanaethau a gwastraff cysylltu a'r system bresennol, mynediad drwy agoriad drws ofewn y pared 'modern' a chau agoriad sydd i'r dde ofewn y pared gwreiddiol, addasu agoriad i'r ffenestr bresennol ar gwydr sydd wedi ei gilfachu. Cae'r March, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (27/8/2020).

b. Yn cyfarfod 27/8/2020 penderfynwyd galw cyfarfod Zoom i drafod ceisiadau cynllunio.

c. Llythyr (28/8/2020) yn cynnwys holiadur yn ymwneud â 'Amcanion Gwella a Llesiant' ar gyfer 2021-2026'.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (17/8/2020) yn rhoi gwybod am Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft. Mae'r ddogfen yw gael yn Swyddfa'r Parc neu ar wefan https/www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidance/supplementary-planning-guidance-consultation Dyddiad cau am ymatebion yw 13/9/2020.

8. Materion Ariannol

a. Gydag awgrym yn cyfarfod mis Mehefin, anfonwyd i'r aelodau copi o Gytundeb Cyflog Cenedlaethol 2019 – 20 oddi wrth Un Llais Cymru, a hefyd manylion cyflog y Clerc.

O gofnodion Ionawr 15, 2019: Cyflog newydd am 2019/20 fydd £10.37 yr awr ar bwynt SCP 19, h.y. £10.37 x 12awr x 12mis = £1,493.28 y flwyddyn. Mae pwynt SCP 19 wedi newid i SCP 8.

Awgrymiadau i newid cyflog y clerc:

O'r uchod mae'r clerc yn gweithio 3 awr y wythnos. Os newid yr oriau i 5 awr yr wythnos y cyflog fydd £10.37 x 20awr x 12mis = £2,488.80 y flwyddyn. Codiad cyflog o £995.52.

Os newid SCP i bwynt SCP 12. £11.22 x 12 x 12 = £1,615.68. Codiad cyflog o £122.40 y flwyddyn.
Os newid SCP i bwynt SCP 17: £12.39 x 12 x 12 = £1,784.16. Codiad cyflog o £290.88 y flwyddyn.

Penderfynwyd newid yr oriau i 5 awr yr wythnos o Ebrill 1, 2020. Mae hyn yn golygu bydd rhaid codi'r praesept.

b. Llythyr (1/9/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod ar gyfer 2020/2021 o 1/4/2020. Mae'r cyflog yn unol â Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2020-2021.

Cyflog presennol y Clerc yw £10.37 yr awr ar bwynt SCP 8, h.y. £10.37 x 12awr x 12mis = £1,493.28 y flwyddyn.

Cyflog newydd am 2020/21 fydd £10.65 yr awr ar bwynt SCP 8, h.y. £10.65 x 12awr x 12mis = £1,533.60 y flwyddyn.

Penderfynwyd derbyn y newid.

c. Llythyr (26/8/2020) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept o £4,500 yn ein cyfrif ar 29/8/2020. Taliad am hanner blwyddyn.

ch. Llythyr (2/9/2020) oddi wrth Gerallt Griffith yn awgrymu talu Zoom £119.90 y flwyddyn am gael ei ddefnyddio am fwy 40 munud fel sydd ar hyn o bryd i gynnal ein cyfarfodydd.

Llythyr (9/9/2020) oddi wrth Rhun Jones yn awgrymu defnyddio'r £119.90 i dalu neuadd sy'n fodlon ein derbyn i gynnal cyfarfod. Mae am holi os mae Neuadd Brithdir ar gael.

Penderfynwyd parhau gyda'r system bresennol gydag ail galw cyfarfod os bydd angen.

d. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2019 - Mawrth 31, 2020:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £473.87 (Llynedd roedd y costau yn £390.36).

Penderfynwyd talu'r costau.

dd. Llythyr (10/9/2020) oddi wrth Cymdeithas Undebol Machreth yn diolch am ein rhodd o £250 tuag at Apêl Diffribiliwr Llanfachreth.

e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Gorffennaf 2020: £1,141.24
Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Awst 2020: £1,141.25

f. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf 2020: £3,947.46.
Balans yn y banc ar 29 Awst 2020: £8,223.02.

9. Archwilio

a. Llythyr (13/8/2020) oddi wrth BDO LLP yn cynnwys 'Hysbysiad diwygiedig o archwiliad 2019-20' wedi ei baratoi gan Archwilio Cymru. Maent angen i ni roi ar ein gwefan tudalen 'Hysbysiad o ddyddiad penodi ar gyfer hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004' cyn 16/8/2020. Anfonwyd y wybodaeth i Elfed ap Gomer. Rhoddwyd yr hysbysiad ar hysbysfyrddau'r gymuned (14/8/2020).

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

11. Unrhyw fater arall

a. Roedd trafodaeth ynglŷn â dyfodol Neuadd Llanfachreth. Er bod y Cyngor yn disgwyl gwybodaeth gyfreithiol gan Guthrie Jones a Jones does dim yn rhwystro Pwyllgor y Neuadd paratoi canllawiau at ddyfodol y Neuadd. Mae'n cael ei ddweud bod fwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Eglwys na'r Neuadd.

Bydd yr diffribiliwr yn cael ei osod ar wal allanol Neuadd Llanfachreth.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae:

i. draen wedi tagu ar y ffordd yn ffridd Braichbedw fyny ger Caerdefaid.

ii. angen trwsio 'crash barrier' sydd ar y rhiw Capel Ffrwd, Llanfachreth a rhoi sylw i wal cynnal tir sydd wrth ymyl y 'crash barrier'.

c. Bydd holiadur 'Snowdonia Golden Eagle Project' gan NFU yn cael ei anfon i'r aelodau ei gwblhau.

Llofnod: Dyddiad: